amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Iesu'n marw drosom ni.

DARLLENWCH
Luc 23: 1-43

Mae'r stori yma'n sôn am **Iesu'n marw drosom ni.**

Ar ôl i Iesu ddod i Jerwsalem, roedd rhai pobl bwysig eisiau ei arestio a'i ladd. Un noson, pan oedd Iesu'n gweddïo mewn gardd, fe ddaethon nhw a'i ddal. Drannoeth, aethon nhw ag e at Pilat, y dyn oedd yn rheoli'r wlad. Penderfynodd Pilat y dylai Iesu farw ar groes.

Aeth y bobl â Iesu i fryn y tu allan i Jerwsalem. Cafodd ei draed a'i ddwylo eu hoelio ar y groes. Cafodd dau leidr eu croeshoelio hefyd. Roedden nhw wedi bod yn ddynion drwg ond dyn da oedd Iesu. Roedd Iesu'n cael ei gosbi am ein bod ni'n bobl ddrwg. Roedd Iesu'n ein caru ni'n fawr iawn – roedd e'n barod i farw droson ni.

Cysylltwch y dotiau i gael gweld lle buodd Iesu farw.



Sawl croes oedd yno i gyd? ☐

Roedd Iesu'n fodlon marw achos ei fod yn ein _ _ _ _ ni.

Enw

DARLLENWCH
Luc 23: 44-56

Mae'r stori yma'n sôn am:
Iesu'n marw ac yn cael ei gladdu..

Stori 2 Iesu'n marw ac yn cael ei gladdu

Roedd yn ganol dydd. Yn sydyn, dyma'r haul yn stopio disgleirio ac aeth yn dywyll iawn am dair awr.



Yn ystod yr amser hwnnw, cafodd Iesu ei gosbi gan Dduw am ein pechod ni. Er bod Iesu wedi cael llawer o boen yn barod, roedd cael ei gosbi gan Dduw yn waeth.



Yna siaradodd Iesu â Duw, ei Dad. Roedd Iesu wedi gorffen y gwaith yr oedd yn gorfod ei wneud er mwyn i Dduw faddau i ni. Nawr roedd yn barod i farw.

Ar ôl i Iesu farw, daeth dyn caredig o'r enw Joseff â thynnu ei gorff oddi ar y groes. Rhoddodd ef mewn lliain a'i roi mewn bedd newydd. Yna, gwthiodd garreg fawr ar draws drws y bedd.

Pwy roddodd corff Iesu mewn bedd? J _ _ _ _ .

Beth roddodd e ar draws y drws? C _ _ _ _ _ .

Lliwiwch y geiriau a'r lluniau.

"i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau; iddo gael ei gladdu ..."

1 Corinthiaid 15: 3 a 4

Enw

DARLLENWCH
Ioan 20: 1-18

Mae'r stori yma'n sôn am:
Mair yn gweld bod Iesu'n fyw.

Stori 3 Iesu'n dod yn ôl yn fyw.



Roedd ffrindiau Iesu'n drist iawn ar ôl iddo farw. Ar ôl tri diwrnod, cododd Mair yn gynnar iawn yn y bore a mynd at y bedd. Cafodd sioc i weld bod y garreg fawr wedi cael ei symud o geg y bedd. Roedd y bedd yn wag!

Doedd Mair ddim yn deall beth oedd wedi digwydd. Dechreuodd grïo. Edrychodd i mewn i'r bedd eto a gwelodd ddau angel.

"Pam wyt ti'n llefain?" gofynnodd yr angylion.

Dywedodd Mair wrthyn nhw bod corff Iesu ar goll. Yna, trodd a gweld dyn yn sefyll yn yr ardd. Roedd Mair yn meddwl mai'r garddwr oedd e. Efallai ei fod e'n gwybod beth oedd wedi digwydd. Gofynnodd Mair iddo.

"Mair," meddai'r dyn. Yna, roedd Mair yn gwybod pwy oedd e. Iesu oedd e! Dywedodd Iesu ei henw hi ac fe wnaeth hi nabod ei lais. Rhedodd hi ato'n hapus.

Pwy welodd Mair yn y bedd? A __ _ _ _ _ _ .

Pwy welodd Mair yn yr ardd? I _ _ _ .

Heddiw, gallwn ni i gyd fod yn hapus achos mae Iesu'n fyw. Gwnaeth Duw Iesu'n fyw eto achos ei fod yn falch â'r hyn wnaeth e yn marw ar y groes.

Lliwiwch y geiriau o'r Beibl.

"a'i gyfodi y trydydd dydd"

1 Corinthiaid 15:4

Enw

DARLLENWCH
Luc 24: 50-53
ac Actau 1: 4-12

Mae'r stori yma'n sôn am:
Iesu'n dod yn ôl

Stori 4 Iesu'n dod yn ôl.

Roedd ffrindiau Iesu'n falch iawn ei fod yn fyw! Un diwrnod, aeth Iesu â'i ddisgyblion i ben bryn. Dywedodd Iesu ei bod yn bryd iddo fynd yn ôl i'r Nefoedd. Fyddai e ddim yn gadael y disgyblion ar eu pen eu hunain – byddai'n anfon yr Ysbryd Glân i'w helpu.

Wedyn, cafodd Iesu ei godi o'r ddaear a daeth cwmwl i'w guddio. Roedd y disgyblion yn edrych i'r awyr a daeth dau angel atynt. Dywedodd yr angylion y byddai Iesu'n dod yn ôl yn yr un ffordd ag yr aeth e.

Roedd y disgyblion yn hapus iawn wedyn! Dylen ni fod yn hapus iawn hefyd o wybod y bydd Iesu'n dod nôl. Bydd yn dod i gwrdd â phawb sy'n ei garu. Ydych chi'n barod i gwrdd â Iesu pan ddaw e 'nôl?

Gorffennwch y brawddegau trwy dynnu llinell at y diwedd iawn.

Aeth Iesu â'i ddisgyblion i ben	angylion.
Roedd Iesu'n cael ei guddio gan	bryn.
Ar ôl i Iesu fynd, gwelodd ei ddisgyblion	gwmwl.

Lliwiwch eiriau'r angylion.

"Bydd Iesu'n dod yn ôl eto."

Actau 1:11

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120